## CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **14 Chwefror 2023** |
| **Teitl:** | **Trefniadau Tâl y Crwner 2023/24** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cymeradwyo trefniadau tâl y Crwner a'r Crwner Cynorthwyol** |
| **Er:** | **Penderfyniad** |
| **Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet ar gyfer Partneriaethau, Gwasanaethau Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd** |

**CEFNDIR**

Cyflwynwyd Adroddiad ar drefniadau tâl Uwch Grwner a Chrwner Cynorthwyol Ceredigion i'r Cabinet ar 15 Mawrth 2022.

Rhyddhaodd y Cydgyngor Trafod Telerau (JNC) Gylchlythyr 66 ynghylch cyfraddau tâl y Crwner a'r Crwner Cynorthwyol o'r 1af o Ebrill 2021 hyd yr 31ain o Fawrth 2022.

Mae cylchlythyr 66 yn cyfeirio'n benodol at gynnydd o 1.5% ar gyfer cyflogau lleol a chyfraddau dyddiol ac mae'n cyflwyno'r cyfraddau a ganlyn:

- Uwch Grwner rhan-amser - cyflog cadw sylfaenol o £21,120 y flwyddyn
- Cyfraddau dyddiol Uwch Grwner rhan-amser £465 - £528 (£458 - £520 cyn hynny – cynnydd o £7 - £8)
- Cyfraddau dyddiol Crwner Cynorthwyol £397 - £479 (£391 - £472 cyn hynny – cynnydd o £6 - £7)

Er mwyn adlewyrchu'r canllawiau yng Nghylchlythyr 66 y JNC, cymeradwyodd y Cabinet yn ei gyfarfod ar 2 Tachwedd 2021 i adlewyrchu'r canllawiau hyn am y cyfnod 1 Ebrill 2021 hyd 31 Mawrth 2022 (gyda thaliadau dilynol wedi'u hôl-ddyddio i'r 1af o Ebrill 2021) fel a ganlyn:

1) <u>Uwch Grwner rhan-amser</u>

   a) Cyflog Cadw –
   i'w gadw a sicrhau bod gwasanaeth y tu allan i oriau ar gael: £21,120
   (cynnydd o £312 y flwyddyn ar gyfraddau tâl 2021/2022 a gytunwyd gan y Cabinet ym mis Mawrth 2021).

   b) Cyfradd ddyddiol: £465 (codiad o 1.5%/£7 ar gyfradd ddyddiol y JNC o £458 / £6 ar y gyfradd bresennol o £459) wedi'i gyfalafu i gynrychioli cyflog blynyddol (gan gynnwys diwrnodau hyfforddiant) o £11,625 (£465 y diwrnod x 25 diwrnod = **£11,625**). Cynnydd o £150 y flwyddyn ar gyfraddau talu 2021/2022 a gytunwyd ym Mawrth 2021.

2) Crwner Cynorthwyol:

- cyfradd diwrnod llawn: £397
- cyfradd hanner diwrnod: £199

Yng nghyfarfod y Cabinet ar 15 Mawrth 2022, pennwyd cyfraddau cyflog y Crwner a'r Crwner Cynorthwyol ar gyfer 2022/23 yn unol â'r rhai a nodwyd yng Nghylchlythyr 66 y JNC ar gyfer 2021/22, gan nad oedd canllawiau pellach wedi'u cyhoeddi gan y JNC.

**Y Sefyllfa Bresennol ar gyfer 2023/24**

Rhaid i'r Cyngor gymeradwyo trefniadau tâl y Crwner a'r Crwner Cynorthwyol ar gyfer 2023/24 a fydd mewn grym oddi ar y 1af o Ebrill 2023. Mae trefniadau tâl y Crwner yn cynnwys cyflog, Yswiriant Cenedlaethol, tâl pensiwn, ardoll prentisiaethau a lwfans tuag at swyddfa a chymorth busnes.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor hefyd fabwysiadu'r fframwaith wrth bennu lefelau cyflog Crwner a Chrwner Cynorthwyol Ceredigion yn y dyfodol. Ar ddyddiad paratoi'r Adroddiad hwn, nid oedd cylchlythyr arall wedi'i gyhoeddi gan y JNC yn nodi cydnabyddiaeth ariannol newydd a gytunwyd.

Gan na chafwyd arweiniad pellach hyd yma gan y JNC, argymhellir bod cyfraddau tâl yr Uwch Grwner a'r Crwner Cynorthwyol ar gyfer 2023/2024 yn parhau ar y cyfraddau a bennwyd ar gyfer 2021/22.

Os bydd y JNC yn rhyddhau gwybodaeth ynghylch cyfraddau tâl y Crwner a'r Crwner Cynorthwyol am y cyfnod o 1 Ebrill 2022 hyd 31 Mawrth 2023, neu o 1 Ebrill 2023 hyd 31 Mawrth 2024, caiff hyn ei gymryd i ystyriaeth a chyflwynir adroddiad arall i'r Cabinet.

**Cynigion**

Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo'r trefniadau a ganlyn a fydd mewn grym o'r 1af o Ebrill 2023 hyd y 31ai o Fawrth 2024 (gan gadw'r trefniadau presennol):

Cymeradwyo'r cyfraddau tâl a ganlyn a fydd mewn grym oddi ar 1 Ebrill 2023:

1) Uwch Grwner rhan-amser
   i) Cyflog Cadw o £21,120 y flwyddyn i'w gadw a sicrhau bod gwasanaeth y tu allan i oriau ar gael o'r 1af o Ebrill 2023 hyd at yr 31ain o Fawrth 2024.
   ii) Defnyddio'r gyfradd ddyddiol o £465 a gytunwyd i dalu cyflog blynyddol o £11,625 i'r Crwner gan gynnwys diwrnodau hyfforddiant o'r 1af o Ebrill 2023 hyd at yr 31ain o Fawrth 2024.
   Cyfanswm: £32,745 y flwyddyn (ynghyd ag argostau).

   iii) Treuliau swyddfa/lwfans cymorth busnes – £5,000 y flwyddyn o'r 1af o Ebrill 2023 hyd at yr 31ain o Fawrth 2024.

2) Crwner Cynorthwyol: Dyma'r cyfraddau dyddiol o'r 1af o Ebrill 2023 hyd at yr 31ain o Fawrth 2024.

- £397 am ddiwrnod llawn; a
- £199 am hanner diwrnod.

| | | |
|---|---|---|
| | **A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os na, nodwch pam** | Naddo<br>Nid yw'r adroddiad hwn yn fater o newid polisi neu strategaeth |
| **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:** | ***Crynodeb:***<br>**Hirdymor:**<br>**Cydweithio:**<br>**Cynnwys:**<br>**Atal:**<br>**Integreiddio:** | |

**Argymhelliad:**

Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r cyfraddau tâl canlynol a fydd mewn grym oddi ar y 1af o Ebrill 2023 hyd at yr 31ain o Fawrth 2024:

1) **Uwch Grwner rhan-amser:**
   i. Cyflog Cadw o £21,120 y flwyddyn i'w gadw a sicrhau bod gwasanaeth y tu allan i oriau ar gael.
   ii. Defnyddio'r gyfradd ddyddiol o £465 a gytunwyd i dalu cyflog blynyddol o £11,625 i'r Crwner gan gynnwys diwrnodau hyfforddiant.
   Cyfanswm: £32,745 y flwyddyn (ynghyd ag argostau).
   iii. Treuliau swyddfa/lwfans cymorth busnes – £5,000 y flwyddyn o'r 1af o Ebrill 2023 hyd at yr 31ain o Fawrth 2024.

2) **Crwner Cynorthwyol:**
Dyma'r cyfraddau dyddiol:
- £397 am ddiwrnod llawn; a
- £199 am hanner diwrnod.

**Rhesymau dros y penderfyniad:** I gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol a Chylchlythyron y JNC; lleihau heriau a diogelu'r pwrs cyhoeddus.

**Trosolwg a Chraffu:** Dim

**Fframwaith Polisi:** Ddim yn berthnasol

**Blaenoriaethau Corfforaethol:** Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth (darparu gwasanaeth effeithlon y crwner)

**Goblygiadau Cyllid a Chaffael:** Parhau â'r trefniadau cyfredol; potensial ar gyfer cynnydd yng nghostau cyflogau a goblygiadau i'r gyllideb yn ymwneud â thâl y Crwner a'r Crwner Cynorthwyol.

| | |
|---|---|
| **Goblygiadau Cyfreithiol:** | Cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol |
| **Goblygiadau Staffio:** | Dim - Nid yw'r Crwner a'r Crwner Cynorthwyol wedi'u dynodi fel cyflogeion i'r Cyngor. |
| **Goblygiadau Eiddo/ Asedau:** | Dim |
| **Risg(iau):** | Her gyfreithiol gan y Crwner a'r Crwner Cynorthwyol os na ddilynir yr argymhellion. |
| **Pwerau Statudol:** | Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009: https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2009/25/contents<br>Rheoliadau Treuliau, Ffioedd a Lwfansau Crwneriaid 2013: https://www.legislation.gov.uk/uksi/2013/1615/made |
| **Papurau Cefndirol:** | Cylchlythyr 63 y JNC, Tachwedd 2018: https://www.coronersociety.org.uk/_img/pics/pdf_1603105217-232.pdf<br>Cylchlythyr 66 y JNC - Tâl Crwner 2021/2022: https://www.local.gov.uk/jnc-circular-no66-coroners-pay-202122<br>Adroddiad i'r Cabinet 16/3/2021: http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/Coroner%20and%20Assistant%20Coroner%20Pay%20(Dwyieithog).pdf<br>Adroddiad i'r Cabinet 2/11/2021: https://cyngor.ceredigion.gov.uk/documents/s2190/Report%20to%20Cabinet%20on%20Coroner%20and%20Assistant%20Coroner%20Pay%20-%202.11.2021_cy-GB.pdf?LLL=1<br>Adroddiad i'r Cabinet 15/3/2022: https://cyngor.ceredigion.gov.uk/documents/s2769/Adroddiad-%20Trefniadau%20Tl%20y%20Crwner%202022-23.pdf?LLL=1 |
| **Atodiadau:** | Dim |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** | Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaeth Cyfreithiol a Llywodraethu (a Swyddog Monitro) |
| **Swyddog Adrodd:** | Elin Prysor |
| **Dyddiad:** | 23 Ionawr 2023 |